OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cyfnewidfa Meadows Bridge i Gylchfan Cross Hands, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2021

*Gwnaed* *1 Ebrill 2021*

*Yn dod i rym* *12 Ebrill 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A48, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cyfnewidfa Meadows Bridge i Gylchfan Cross Hands, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2021 a daw i rym ar 12 Ebrill 2021.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## A48 Trunk Road (Meadows Bridge Interchange to Cross Hands Roundabout, Carmarthenshire) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians) Order 2021

*Made* *1 April 2021*

*Coming into force* *12 April 2021*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A48 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984**(1)**, make this Order.

### Title, Commencement and Interpretation

**1.** The title of this Order is the A48 Trunk Road (Meadows Bridge Interchange to Cross Hands Roundabout, Carmarthenshire) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians) Order 2021 and it comes into force on 12 April 2021.

**2.** In this Order—

"exempted vehicle" *("cerbyd esempt")* means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

**(1)** 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 12 Ebrill 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A48 Llundain i Abergwaun;

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 1 Ebrill 2021

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

**Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro**

1. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i thrwyniad â'r ffordd ymadael wrth gyfnewidfa Meadows Bridge hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Cross Hands.

2. Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A48 wrth gyfnewidfa Meadows Bridge.

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A48 London to Fishguard trunk road;

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means the period commencing at 20:00 hours on 12 April 2021 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

**Prohibitions**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

**4.** No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

**5.** No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

**Application**

**6.** The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**7.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the 1 April 2021

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

**SCHEDULE**

**Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists, and Pedestrians**

1. The length of the A48 westbound carriageway of the trunk road that extends from its nosing with the exit slip road at Meadows bridge interchange to its junction with the main circulatory carriageway at Cross Hands Roundabout.

2. The entire length of the A48 westbound entry slip road at Meadows bridge interchange.

3. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Cross Hands hyd at ei thrwyniad â'r ffordd ymuno wrth gyfnewidfa Meadows Bridge.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A48 (CYFNEWIDFA MEADOWS BRIDGE I GYLCHFAN CROSS HANDS, SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A48, neu gerllaw iddi, o Gyfnewidfa Meadows Bridge i Gylchfan Cross Hands yn Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rheini a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith), beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd.

Caiff cerbydau â llwythi annormal eu gwahardd rhag defnyddio'r llwybrau eraill a chânt eu parcio dros nos mewn cilfannau hyd nes bod y system rheoli traffig wedi ei symud ymaith.

Bydd y gwaharddiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol dros nos o 20:00 hyd 06:00 o'r gloch gan ddechrau ar 12 Ebrill 2021 a dod i ben ar 17 Ebrill 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

3. The length of the A48 eastbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the main circulatory carriageway at Cross Hands Roundabout to its nosing with the entry slip road at Meadows bridge interchange.

**THE A48 TRUNK ROAD (MEADOWS BRIDGE INTERCHANGE TO CROSS HANDS ROUNDABOUT, CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS AND PEDESTRIANS) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A48 trunk road from Meadows Bridge Interchange to Cross Hands Roundabout in the County of Carmarthenshire.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works), cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described in that Schedule.

Vehicles with abnormal loads will be prohibited from using the alternative routes and will be parked up into laybys overnight until the traffic management is removed.

The temporary prohibitions, which will be signed accordingly, will operate overnight from 20:00 hours until 06:00 hours commencing on 12 April 2021 and ending on 17 April 2021 or when the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the proposed Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

### YR ATODLEN

### Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

1. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i thrwyniad â'r ffordd ymadael wrth gyfnewidfa Meadows Bridge hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Cross Hands.

2. Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A48 wrth gyfnewidfa Meadows Bridge.

3. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Cross Hands hyd at ei thrwyniad â'r ffordd ymuno wrth gyfnewidfa Meadows Bridge.

### Y llwybr arall

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau, beicwyr a cherddwyr sy'n dymuno teithio tua'r gorllewin o Gylchfan Meadows Bridge yw mynd ar Heol Parc Mawr tua'r gorllewin, Heol Pontarddulais tua'r gogledd a'r A476 Heol Llandeilo tua'r dwyrain i Gylchfan Cross Hands. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig tua'r dwyrain o Gylchfan Cross Hands.

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

### SCHEDULE

### Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians

1. The length of the A48 westbound carriageway of the trunk road that extends from its nosing with the exit slip road at Meadows Bridge interchange to its junction with the main circulatory carriageway at Cross Hands Roundabout.

2. The entire length of the A48 westbound entry slip road at Meadows Bridge interchange.

3. The length of the A48 eastbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the main circulatory carriageway at Cross Hands Roundabout to its nosing with the entry slip road at Meadows Bridge interchange.

### Alternative route

The alternative route for vehicles, cyclists and pedestrians wishing to travel westbound from Meadows Bridge Roundabout will be via the westbound Heol Parc Mawr, northbound Pontarddulais Road and eastbound A476 Llandeilo Road to Cross Hands Roundabout. Vice versa for eastbound traffic from Cross Hands Roundabout.